
Adroddiad ar gau'r rhaglen clirio 700 MHz

Adolygu'r canlyniadau

DATGANIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 21 Rhagfyr 2020

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Ar 13 Mawrth 2020, fe wnaethom gyhoeddi adolygiad cynnydd wrth i ni nesáu at ddiwedd y rhaglen clirio 700 MHz.¹ Daethom i'r casgliad bod y rhaglen ar y trywydd iawn i gael ei chwblhau yn Ch2 2020 fel y bwriadwyd. Nodwyd rhai risgiau i'r amserlen honno, yn deillio o'r posibilrwydd o dywydd gwael neu ddigwyddiadau heb eu cynllunio o bwys cenedlaethol. Roeddem wedi dweud y gallai digwyddiad o'r fath fygwth yr amserlen gyffredinol clirio petai'n digwydd yn ystod digwyddiadau clirio.

Ymddangosodd digwyddiad o bwys cenedlaethol yn gyflym iawn gyda'r pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo cenedlaethol a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2020. Oherwydd Covid-19, bu'n rhaid gohirio digwyddiadau clirio a mabwysiadu amserlen ddiwygiedig ar gyfer y rhaglen oherwydd y cyfnod clo cenedlaethol yn y DU yn hanner cyntaf 2020.

Ailgychwynnodd y digwyddiadau clirio yn llwyddiannus ar 12 Awst ar ôl i gyfyngiadau Llywodraeth y DU gael eu llacio a chwblhawyd cam olaf clirio'r tonnau awyr ar 19 Awst 2020.

Mae'r rhaglen clirio 700 MHz wedi clirio'r sbectrwm hwn yn llwyddiannus er mwyn gallu ei ddefnyddio i fodloni'r galw cynyddol am sbectrwm ar gyfer data symudol. Mae pob ffrwd waith wedi symud ymlaen at y cynllun cau diwygiedig. Mae'r adroddiad cau terfynol yn nodi prif lwyddiannau'r rhaglen yn 2020 yn ogystal â'r gweithgareddau sy'n weddill o'r rhaglen o ystyried bod yr agweddau ar y rhaglen sy'n wynebu defnyddwyr wedi'u cwblhau.

Cafodd y rhaglen clirio 700 MHz ei chychwyn i glirio'r band 700 MHz ar gyfer dyfeisiau symudol. Cyflawnwyd hyn yn llwyddiannus

- 1.1 Nod y Rhaglen Clirio 700 MHz oedd clirio defnyddwyr presennol y band sbectrwm 700 MHz, Teledu Daearol Digidol (DTT) a thrwyddedeion Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE) a sicrhau ei fod ar gael at ddefnydd band eang symudol. Byddai gwasanaethau DTT yn cael eu symud i rannau eraill o sbectrwm ac ni fyddai'r amleddau ar gael i PMSE ychwaith.²
- 1.2 Ym mis Tachwedd 2014³ fe wnaethom benderfynu gwneud y sbectrwm yn agored ac yn 2016⁴ penderfynom mai'r ffordd orau o sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau fyddai drwy glirio'r band erbyn canol 2020. Dechreuwyd ar y rhaglen clirio

¹ https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/192730/adolygu-amserlen-y-rhaglen-ar-gyfer-clirio-band-700-MHz.pdf

² Rydym eisoes wedi cyhoeddi y bydd sbectrwm arall ar gael i PMSE ei ddefnyddio: *Sbectrwm newydd ar gyfer PMSE sain* https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0021/62481/New-Spectrum-for-Audio-PMSE-statement.pdf

³ *Decision to make the 700 MHz band available for mobile broadband*, datganiad Ofcom, Tachwedd 2014 https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0024/46923/700-mhz-statement.pdf

⁴ *Maximising the benefits of 700 MHz clearance*, datganiad Ofcom, Mawrth 2016

<https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/maximising-benefits-700mhz-clearance>

700MHz yn 2017. Rydym wedi adolygu cynnydd y rhaglen yn flynyddol i sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni'n brydlon.

Dangosodd ein hadolygiad diwethaf bod yr holl feysydd gwaith ar y trywydd iawn, er bod y risgiau o ran cyflawni yn dal i fodoli

- 1.3 Fe wnaeth adolygiad mis Mawrth 2020 ganfod fod pob un o'r ffrydiau gwaith ar y trywydd iawn. Roedd y gwaith o ddarparu digwyddiadau clirio yn 2019 a dechrau 2020 wedi symud gyda'r amserlen ac roedd y paratodau ar gyfer y digwyddiadau clirio terfynol ym mis Ebrill 2020 hefyd yn mynd rhagddynt.
- 1.4 Roedd ein hadolygiad ym mis Mawrth yn cynnwys cyfarfod rhanddeiliaid lefel uchel gyda phrif rhanddeiliaid y rhaglen (a oedd wedi cynnal eu hadolygiadau eu hunain). Roedd yr holl bartion yn cytuno bod y dyddiad gorffen arfaethedig ar y trywydd iawn a bod modd ei gyflawni, cyn belled â bod dim digwyddiadau sylweddol nad oedd modd eu rhagweld.
- 1.5 Fodd bynnag, gwnaethom nodi fod hon yn rhaglen weithredu peirianeg gymhleth. O ganlyniad, roedd yn agored i nifer o risgiau a allai achosi oedi wrth gwblhau, risgiau'n ymwneud â'r trywydd a digwyddiadau heb eu cynllunio o bwys cenedlaethol, a allai beryglu'r amserlen gyffredinol pe byddent yn atal gwaith rhag cael ei wneud ar y rhwydwaith darlledu yn ystod cyfnodau o weithgarwch dwys.
- 1.6 Yn gyffredinol, daeth ein hadolygiad ym mis Mawrth i'r casgliad bod y rhaglen clirio 700MHz yn cyflawni'n unol â'r amserlen.

Bu i'r sefyllfa Covid-19 atal y gwaith

- 1.7 Ar 13 Mawrth 2020, cyhoeddodd Ofcom ei ddiweddariad ar gynnydd y gwaith clirio 700 MHz. Diwrnodau'n ddiweddarach, ar 23 Mawrth, cyflwynodd y Llywodraeth gyfyngiadau cenedlaethol yn datgan y dylai unrhyw gysylltiad cymdeithasol diangen ddod i ben. Fe wnaeth y sefyllfa o ran COVID-19 ddatblygu'n gyflym, gyda goblygiadau difrifol i fywyd yn y DU, gan gynnwys cyfyngiadau ar deithio a'r angen i bobl hunanynysu.
- 1.8 Yng ngoleuni'r sefyllfa ddigynsail honno, penderfynwyd gohirio'r ddau ddigwyddiad clirio olaf oedd wedi'u trefnu ar gyfer mis Ebrill nes bod y broblem Covid-19 wedi cilio.
- 1.9 Yn dilyn trafodaethau dwys â phartneriaid y rhaglen ac ail-gynllunio manwl, ailgychwynwyd y rhaglen ym mis Awst 2020 a chafodd y ddau ddigwyddiad clirio olaf eu cwblhau'n llwyddiannus ar 12 a 19 Awst 2020.

Daw'r adolygiad hwn i'r casgliad bod pob ffrwd waith wedi symud ymlaen yn unol â'r cynllun cau diwygiedig

- 1.10 Rydym wedi adolygu'r cynnydd ers ein hadolygiad ym mis Mawrth. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein casgliadau. Mae yna nifer o ffrydiau gwaith a ffynonellau gwybodaeth rydym wedi'u hystyried yn ein hadolygiad. Dyma'r prif feysydd:
 - datblygu'r cynllun amledd a bwrw ymlaen tuag at gytundebau cydlynu rhyngwladol;

- cynnydd rhaglen adeiladu'r seilwaith;
 - gwybodaeth a gafwyd o ddigwyddiadau clirio⁵ a gynhaliwyd yn ystod 2019 a 2020, gan gynnwys cymorth i wylwyr; a'r
 - cynllun grantiau PMSE.
- 1.11 Mae'r holl ffrydiau gwaith bellach wedi'u cwblhau ac eithrio'r addasiadau i'r seilwaith trawsyrru darlledu i roi'r rhwydwaith yn ôl yn ei gyfluniad cyflwr sefydlog a rhoi'r newidiadau terfynol ar waith. Mae gwaith seilwaith pellach i'w wneud ar dwr trawsyrrydd Emley Moor cyn trosglwyddo gwasanaethau o'r tŵr dros dro a godwyd ar gyfer clirio 700MHz yn ôl i'r strwythur concret parhaol.
- 1.12 Mae'r risgiau sy'n weddill i'r rhaglen fel ag yr oeddent yn ein diweddariad ym mis Mawrth 2020, er bod y risgiau hyn yn llai sylweddol o ystyried bod yr holl ddigwyddiadau clirio 700MHz wedi digwydd erbyn hyn. Dyma'r risgiau:
- Digwyddiadau annisgwyl a allai atal gwaith seilwaith (fel argyfyngau cenedlaethol neu ddigwyddiadau o ddiddordeb sylweddol i'r cyfryngau) ac a allai beryglu'r amserlen gyffredinol os ydynt yn atal gwaith ar y rhwydwaith darlledu yn ystod cyfnodau o weithgarwch dwys.
 - Cyfnodau maith o dywydd gwael sy'n arafu'r gwaith a wneir yn yr awyr agored, yn enwedig gosod antenau ar y trawsyryddion mwy.
- 1.13 Ers ein hadolygiad diwethaf, fe wnaeth yr argyfwng cenedlaethol Covid-19 achosi llithriad yn y cynllun ar gyfer digwyddiadau clirio rhwng mis Ebrill a mis Awst. Fodd bynnag, mae'r rhaglen glirio wedi'i chyflawni, er gwaethaf yr oedi o ganlyniad i Covid-19, a chliriwyd y sbectrwm 700MHz yn llwyddiannus ar 19 Awst 2020.

Mae adran trosolwg y ddogfen hon yn grynodeb syml lefel uchel yn unig.

⁵ Rydym yn defnyddio'r term 'digwyddiad clirio' i ddisgrifio achosion pryd y gwneir newidiadau i amleddau mewn trawsyrrydd DTT sy'n golygu bod angen i wylwyr gymryd camau i ail-diwnio eu hoffer teledu.